Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Pontfadog

**Pontfadog**
**Llangollen**
**Wrecsam**
**LL20 7AH**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Merfyn Douglas Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa pedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | **Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector** |
| **Da** | **Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol** |
| **Digonol** | **Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella** |
| **Anfoddhaol** | **Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau** |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/y cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Pontfadog yn ysgol gynradd gymunedol a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r ysgol yn Nyffryn Ceiriog yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac mae'n gwasanaethu cymunedau gwledig Pontfadog, Dôl-y-wern, Llwynmawr a Bron-y-garth.

Dywed yr ysgol fod y disgyblion yn cynrychioli amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol, a bod y nifer a dderbynnir yn cynnwys llawer o ddisgyblion galluog ac ambell ddisgybl llai galluog. Mae rhyw 5% o'r disgyblion yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim, ac mae gan yr un ganran anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r rhain ymhell islaw'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae nifer y disgyblion wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 21 o ddisgyblion amser llawn (5-11 oed) a phump o blant oed meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Roedd tair ystafell ddosbarth yn 2004 ac erbyn hyn dim ond dwy ystafell ddosbarth sydd.

Daw'r holl ddisgyblion o gartrefi lle'r iaith gyfathrebu yw Saesneg ac maent yn dysgu Cymraeg yn ail iaith.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei amser rhwng dwy ysgol ac erbyn hyn mae'n bennaeth nad yw'n addysgu. Cafodd ei benodi ym 1993 yn bennaeth ar ysgol Pontfadog ac yn 2009 ar ysgol Llanarmon.

Mae addysgu yn y dosbarth iau bellach yn sefyllfa rhannu swydd, a'r naill athro'n addysgu am dri diwrnod a'r llall am ddau. Mae un athro amser llawn ac un cynorthwyydd ystafell ddosbarth yn y Cyfnod Sylfaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae cynnydd y dysgwyr o'u derbyn i ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ddigonol ar y cyfan;
- Weithiau, mae diffyg rhediad i'r addysgu, mae diffyg her i'r tasgau ac nid yw cwestiynau'n annog sgiliau meddwl a chyfathrebu'r dysgwyr;
- Nid yw'r arweinyddiaeth strategol yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau ac ar fentrau cenedlaethol fel y 'Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion';
- Mae'r trefniadau diogelu'n anfoddhaol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Nid yw'r hunanarfarnu'n effeithio digon ar godi safonau;
- Ni aethpwyd i'r afael â'r holl argymhellion o'r arolygiad blaenorol;
- Nid yw'r disgyblion, yn enwedig y rhai mwy galluog, yn cael eu herio'n ddigonol i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

## Argymhellion

A1* Darparu tasgau sy'n cyfateb yn dda i alluoedd y disgyblion ac sy'n herio'r disgyblion sy'n cyflawni'n uwch.

A2 Sicrhau cysondeb yn ansawdd y marcio a hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am yr hyn mae angen iddynt ei wneud nesaf, gyda thargedau unigol cyraeddadwy a phenodol.

A3* Parhau i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

A4 Adolygu gweithdrefnau a pholisi diogelu'r ysgol ar frys a threfnu hyfforddiant priodol i'r holl staff.

A5 Gwella manwl gywirdeb yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwelliant, a mabwysiadu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

*a nodwyd gan yr ysgol yn ei chynllun datblygu diweddar.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i farnu'r cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth meithrin a derbyn, mae'r disgyblion a dderbynnir yn cynnwys llawer o ddisgyblion galluog ac ambell ddisgybl llai galluog. Mae'r cynnydd a wnânt erbyn diwedd CA2 yn foddhaol.

A chyn lleied o ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae angen bod yn ofalus iawn wrth ddadansoddi data ac adnabod tueddiadau dros amser oherwydd gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol.

Fodd bynnag, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3 yng Nghyfnod allweddol 1 (CA1) a lefel 5 yng Nghyfnod allweddol 2 (CA2) wedi gostwng yn gyson.

Yn 2010, nid oedd unrhyw lefelau 5 mewn Saesneg (llefaredd, darllen ac ysgrifennu) ac mewn gwyddoniaeth yn CA2 nac unrhyw lefelau 3 yn CA1.

Fodd bynnag, yn CA2, mae'r ffigurau lefel 4+ ymhell uwchlaw cyfartaleddau teulu, lleol a Chymru gyfan ac yn CA1 mae'r ffigurau lefel 2+ ymhell uwchlaw cyfartaleddau teulu, lleol a chenedlaethol mewn mathemateg a gwyddoniaeth ond ymhell islaw'r rhain mewn Saesneg.

Wedi'u meincnodi mewn perthynas ag ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, mae canlyniadau'r disgyblion yn anwadalu'n fawr o fod yn y 25% gwaelod i'r 25% brig oherwydd y niferoedd carfan isel iawn.

Mae'r canlyniadau Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) (h.y. y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni lefel 2 neu uwch yn CA1 a lefel 4 neu uwch yn CA2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) hefyd yn anwadalu'n fawr yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn anwadalu'n sylweddol dros y blynyddoedd.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y dysgwyr yn gwrando'n dda, yn siarad yn glir ac yn darllen yn hyderus. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n ysgrifennu'n faith mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm ac mewn gwahanol foddau. Mae sgiliau technoleg a chyfrifiadurol bron yr holl ddisgyblion wedi'u datblygu'n dda ac mae sgiliau rhifedd mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda.

Mae sgiliau Cymraeg a dwyieithog bron yr holl ddysgwyr wedi'u datblygu'n dda. Maent yn cyrraedd yr ysgol heb Gymraeg o gwbl ac yn gwneud cynnydd da yn dysgu'r iaith.

**Lles: Da**

Mae lles y disgyblion yn dda. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel er gwaethaf diffygion y trefniadau diogelu, ac yn deall yr hyn mae angen iddynt ei wneud i gadw'n

iach. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a llawer ohonynt yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau i wella eu dysgu eu hunain.

Mae'r presenoldeb, sef 96.6%, yn dda iawn ac mae'n cymharu'n dda iawn ag ysgolion tebyg yng Nghymru a'r Awdurdod Lleol (ALl). Mae wedi gwella'n sylweddol yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda yn y dosbarth ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae'r disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais, gan drin pawb â pharch.

Mae Eco-bwyllgor a Chyngor yr Ysgol wrthi'n cymryd rhan mewn penderfyniadau am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys addysg grefyddol. Mae amrywiaeth dda o brofiadau dysgu diddorol yn bodloni anghenion pob disgybl. Mae cynlluniau'n ymestyn hyd at bedair blynedd er mwyn osgoi ailadrodd meysydd pwnc yn ddianghenraid ac i gynnal diddordeb a chymhelliant y disgyblion.

Mae llawer o weithgareddau'n herio'r dysgwyr gyda chyfleoedd diddorol i weithio'n greadigol ac i ddatrys problemau. Mae cynlluniau cwricwlaidd yn ystyried datblygiad sgiliau allweddol cyfathrebu, rhifedd a TGCh y disgyblion yn ddigonol. Mae siarad, gwrando a darllen yn rhan amlwg o waith y disgyblion. Nid yw cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ysgrifennu'r disgyblion yn cael eu cynllunio'n ddigon da.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion hanesyddol a diwylliannol yr ardal a Chymru wedi'u datblygu'n effeithiol. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion am ddatblygu cynaliadwy yn dda a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddigonol. Ar y cyfan, nid yw cyfleoedd i ymestyn disgyblion mwy galluog yn cael eu cynllunio'n ddigonol ac ni fanteisir yn llawn ar gyfleoedd.

Mae amrywiaeth dda o ymweliadau, ymwelwyr â'r ysgol a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn sylweddol. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion yn dda.

**Addysgu: Digonol**

Mae system effeithlon ar gyfer mesur ac olrhain cynnydd y dysgwyr drwy'r ysgol. Mae asesiadau Derbyn a Chychwynnol yn darparu meincnod defnyddiol y gellir mesur cynnydd mewn perthynas ag ef. Yn CA2, mae cynnydd yr holl ddisgyblion mewn darllen yn cael ei brofi ac mae prawf o sgiliau meddwl ym mlwyddyn 4 yn caniatáu i'r athrawon gynllunio'n fwy effeithiol. Mae trefniadau i safoni asesiadau athrawon yn cael eu diwygio er mwyn asesu'n fwy dibynadwy.

Mae'r athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn rhoi cymorth ac adborth llafar da tra byddant yn gweithio. Mae'r marcio mewn llyfrau'n llai effeithiol, oherwydd prin mae'n cyfeirio at ganlyniadau a fwriadwyd nac yn awgrymu ffyrdd i

wella.  Mae asesu ar gyfer dysgu newydd ddechrau datblygu. Mae'r adroddiadau i rieni'n fanwl ac yn ddefnyddiol.

Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae tasgau'n cyfateb yn dda i allu'r disgyblion ac mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda i gefnogi dysgu.  Mae cwestiynau penagored yn estyn sgiliau meddwl a chyfathrebu'r dysgwyr.

Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r athrawon yn herio'r disgyblion yn ddigonol ac mae'r gwersi'n rhedeg yn rhy araf.  Mae'r gwersi'n cael eu cyfarwyddo gormod gan yr athrawon a defnyddir gormod o daflenni gwaith amhriodol â diffyg her.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Digonol**

Mae'r rhieni'n gefnogol ac yn cytuno bod darpariaeth yr ysgol ar gyfer iechyd a lles yn dda.  Mae gwaith yr ysgol gydag Ysgolion Iach wedi annog ymwybyddiaeth y disgyblion ymhellach am bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd.  Mae'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn ystyried ac yn cefnogi profiadau dysgu a datblygiad personol y disgyblion yn dda.  Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda.

Er bod y staff i gyd yn gwybod beth i'w wneud a phwy i gysylltu ag ef mewn argyfwng, nid ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant diweddar ynghylch trefniadau diogelu.  Nid oes gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu ac nid yw gweithdrefnau i ymdrin â materion diogelu wedi'u datblygu'n llawn.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ac mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a'i drin yn gyfartal.  Mae'r ysgol wedi mabwysiadu amrywiaeth o bolisïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i'r disgyblion a'r staff.  Mae'r disgyblion yn cael cyfrifoldebau sy'n effeithio ar yr amgylchedd dysgu.  Mae mynediad cyfartal at y cwricwlwm a dengys canlyniadau Cwricwlwm Cenedlaethol diwedd cyfnod allweddol fod mwyafrif y disgyblion yn cyflawni llwyddiant, heb ystyried rhyw, gallu na chefndir cymdeithasol.

Mae'r staff a'r disgyblion yn arddangos ymagwedd ofalgar a goddefgar at eraill.

Mae adnoddau cynhwysfawr i gefnogi addysgu a dysgu, sy'n cyfateb yn dda i anghenion y disgyblion.  Mae'r adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae'r ystafelloedd dosbarth yn darparu amgylchedd golau, symbylol i'r dysgwyr.  Defnyddir ardaloedd allanol yn effeithiol, mae'r cae a'r iard yn cael eu defnyddio'n dda ar gyfer profiadau dysgu.  Mae lle allanol y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddefnyddio'n gyson i ddatblygu annibyniaeth.  Mae'r toiledau'n briodol i nifer y disgyblion ond mae angen eu moderneiddio.  Nid oes neuadd yn yr ysgol ac mae'n rhaid cludo'r disgyblion i sicrhau eu bod yn cael Addysg Gorfforol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Ers ei benodi'n bennaeth ar ysgol bentref fechan arall yn lleol, mae'r pennaeth wedi

dirprwyo arweinyddiaeth yn llwyddiannus ac mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg o ddydd i ddydd yn effeithiol ac yn effeithlon yn ei absenoldeb. Mae rolau a chyfrifoldebau'n cael eu diffinio a'u cydbwyso'n glir, ac mae'r holl staff yn deall eu rolau.

Mae rhaglen dreigl a drefnwyd yn ddiweddar ar gyfer monitro addysgu a dysgu ond nid yw wedi effeithio ar safonau eto. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd yn dîm bach ac mae hyn yn effeithio'n dda ar ethos yr ysgol.

Nid yw'r blaenoriaethau a nodwyd o'r broses hunanarfarnu'n seiliedig yn aml ar godi safonau nac ar hyrwyddo cynnydd y disgyblion. Mae diffyg manylion yn y cynllun gwella ysgol (CGY) am gamau i'w cymryd i gyflawni'r meini prawf llwyddiant ac nid oes adolygiad na dadansoddiad o flaenoriaethau blaenorol.

Nid yw'r pennaeth yn gwbl ymwybodol o'r strategaethau sydd ar gael i godi safonau fel yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ond mae'n gefnogol iawn o'i staff a'r corff llywodraethu ac mae'n gweithio'n galed er lles yr holl ddysgwyr.

Ar wahân i'r mater diogelu, mae'r corff llywodraethu'n deall ei gyfrifoldebau'n dda. Mae gan y llywodraethwyr ddiddordeb cryf ym mywyd bob dydd yr ysgol ac maent yn gefnogol iawn o'r pennaeth a'r staff. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn herio cyfeiriad yr ysgol na'r cynlluniau datblygu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gweithdrefnau ar gyfer arfarnu ansawdd a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigonol. Mae'r ysgol yn arfarnu ei gwaith yn onest ond nid yw'r broses hunanarfanu'n ddigon trwyadl. Mae adolygiadau'n disgrifio'r sefyllfa heb arfarnu unrhyw effaith ar ddisgyblion a safonau. Er bod yr adolygiad yn cynnwys barn rhieni, disgyblion a llywodraethwyr, nid yw'n cynnwys cyfraniadau gan bob aelod o staff. Nid yw'r dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad wedi canolbwyntio'n ddigonol ar geisio cyfleoedd i godi safonau cyrhaeddiad i ddisgyblion o bob gallu. Prin yw'r cyfleoedd mae'r ysgol wedi'u ceisio i arsylwi arfer gorau mewn ysgolion eraill ac addasu ei darpariaeth yn briodol.

Mae'r Cynllun Gwella Ysgol yn tynnu ar yr adolygiad hunanarfarnu ond nid yw'n arf cwbl effeithiol i achosi gwelliannau, oherwydd nid yw blaenoriaethau'n cael eu cysylltu â safonau, nid ydynt yn disgrifio tasgau a thargedau'n ddigon manwl, nac yn darparu meini prawf llwyddiant mesuradwy. Nid yw cynnydd tuag at flaenoriaethau o gynlluniau blynyddoedd blaenorol yn cael ei arfarnu'n rheolaidd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau â rhieni a'r gymuned leol yn gryf iawn. Mae disgyblion drwy'r ysgol gyfan yn elwa ar nifer dda o gysylltiadau ag ysgolion, busnesau ac elusennau lleol.

Mae cysylltiadau agos â'r grŵp Ti a Fi lleol, y clwstwr o ysgolion cynradd a'r brif ysgol uwchradd sy'n derbyn. Mae trefniadau pontio rhwng yr ysgolion yn dda, gyda'r disgyblion hŷn yn elwa ar ymweliadau â'r ysgol uwchradd ac ymweliadau gan yr ysgol uwchradd. Maent yn ymgymryd â phynciau a gynllunnir ar y cyd i'w paratoi ar gyfer eu tymor cyntaf yn yr ysgol newydd.

Cynllunnir nifer o gyd-fentrau cwricwlaidd gydag ysgolion clwstwr.  Mae'r ysgol yn darparu profiadau a lleoliadau defnyddiol i fyfyrwyr o ysgolion uwchradd a cholegau hyfforddiant athrawon.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Drwy'r ysgol gyfan, mae amrywiaeth eang o adnoddau a ddefnyddir i gefnogi addysgu a dysgu.  Defnyddir y lle prin sydd ar gael yn dda.  Mae'r staff yn cael eu lleoli'n effeithiol ac mae gan athrawon y wybodaeth i roi sylw i bob agwedd ar y cwricwlwm.  Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n dda i gynllunio cyfleoedd effeithiol i'r holl blant.  Mae'r ysgol yn bodloni ei gofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad a rhoi'r Cytundeb Llwyth Gwaith ar waith.  Mae system werthuso ar waith i staff cefnogi.  Mae Is-bwyllgor Cyllid yr ysgol yn gosod cyllideb yr ysgol ac yn gwneud trefniadau ar gyfer hapddigwyddiadau.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Holiaduron rhieni

Llenwodd pump o rieni’r holiadur. Mae’r holl rieni’n cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r holl sylwadau yn yr holiadur heblaw am yr un ynghylch y plant yn cael eu paratoi’n dda at symud i’r ysgol nesaf, ac nid oedd 50% yn gwybod.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Holiadur dysgwyr

Gwnaeth deuddeg o ddysgwyr, sef CA2 cyfan, lenwi’r holiadur. Roeddent i gyd yn cytuno:

- bod yr ysgol yn ymdrin yn dda â bwlio
- eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu’n drist
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol
- bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd
- bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith.

Y prif bryderon oedd gwaith cartref (4), ymddygiad yn y dosbarth (6) ac ymddygiad yn ystod amser chwarae ac amser cinio (8). Merched yn bennaf oedd y rhain.

Pan holwyd y disgyblion, gwnaethant egluro eu bod wedi’u drysu ac nad oedd unrhyw fwlio go iawn yn yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, roedd yr holl ddisgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Merfyn Douglas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Christopher Dolby | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Barbara Adams | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Davies | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:**

Baker-Phillips Educational Communications Ltd., Oaks Lea, Higher Knolton, Owrtyn, Wrecsam, LL13 0LF

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |